# Twyni Byw

## Prosiect i adfer ac adfywio cynefinoedd twyni tywod ledled Cymru

Adroddiad lleygwr

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



naturalresources.wales/twynibyw

Co-funded by the European Union

NATURA 2000

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



Ariennir ar y cyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, barn yr awdur(on) yn unig yw'r safbwyntiau a fynegir ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu rhai'r Undeb Ewropeaidd na CINEA. Ni all yr Undeb Ewropeaidd na'r awdurdod ariannu gael eu dal yn gyfrifol amdanynt.

# Cynnwys


**Rhagair** 4

**Cyflwyniad** 5-7

Beth sy'n arbennig am dwyni tywod?
Hafan i fywyd gwyllt
Pam adfer twyni tywod?
Bygythiadau i dwyni

**Safleoedd prosiect Twyni Byw a'u nodweddion** 8/9

Safleoedd prosiect Twyni Byw
Nodweddion prosiect Twyni Byw

**Gwaith adfer ymarferol** 10-13

Ailbroffilio twyni
Crafu llaciau twyni
Cael gwared â phrysgwydd ymledol
Cael gwared â rhywogaethau estron goresgynnol
Torri coed conwydd
Hyrwyddo pori cynaliadwy gan dda byw
Clirio ordnans heb ffrwydro
Torri gwair
Hybu cwningod
Yr hyn a gyflawnwyd yn gyfan gwbl

**Arolygu a monitro** 14

**Astudiaethau achos o adfer ar raddfa tirwedd** 15

Morfa Harlech
Merthyr Mawr

**Rhoi sbotolau ar dwyni tywod** 16

Ymgysylltu
Cyhoeddiadau
Nodau llesiant

**Dyfodol adfer twyni tywod yng Nghymru** 17

**Llwyddiannau prosiect Twyni Byw** 18/19

Adfer
Tystiolaeth a dysgu
Cyfathrebu ac ymgysylltu

# Rhagair



**Roedd Twyni Byw yn brosiect cadwraeth mawr i adfer twyni tywod ledled Cymru. Gan gydweithio â thirfeddianwyr a rheolwyr safleoedd, ailgreodd y prosiect symudiad naturiol yn y twyni ac adfywio cynefinoedd sy'n cynnal rhai o'r rhywogaethau bywyd gwyllt prinnaf yng Nghymru. Derbyniodd prosiect Twyni Byw gyllid gan Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd a chafodd ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.**

**Data'r prosiect**
Cyfeirnod: SoLIFE LIFE17 NAT/UK/000023
Dyddiad dechrau: 1 Medi 2018
Dyddiad gorffen: 30 Mehefin 2024
Cydlynydd: Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

**Tîm Twyni Byw:** Kathryn Hewitt, Laura Davies, Kate Linck, Diane Farmery, Jake Burton, Lucy Smith, Gabriel Hibberd, Danny Griffith, Leigh Denyer, Isabelle Spall, Nick Thomas a Julie Creer

Mae Twyni Byw wedi cydweithio'n agos gyda llawer o ffermwyr, tirfeddianwyr, contractwyr, sefydliadau partner a chydweithwyr CNC gydol y prosiect. Hoffem ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu cefnogaeth a'u cyngor, a'u brwdfrydedd a'u gwaith caled, a oedd yn hanfodol er mwyn gwneud y prosiect yn un llwyddiannus. Diolch.

# Cyflwyniad

## Beth sy’n arbennig am dwyni tywod?

Mae twyni tywod arfordirol Cymru yn dirweddau hudolus, eiconig ac ymhlith rhai o’r cynefinoedd mwyaf naturiol a chyfoethog yn y wlad. Maent yn llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth ble ceir carpedi bywiog o flodau’n ffynnu ochr yn ochr ag adar cân, ac amrywiaeth eang o bryfed sydd mewn perygl.

Yn ogystal â’u cyfoeth o ran bioamrywiaeth, mae twyni tywod yn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd ehangach. Maent yn amddiffynfeydd môr naturiol rhag llifogydd ac erydiad, yn cynnal ansawdd a llif dŵr croyw, ac yn hybu poblogaethau gwenyn a pheillwyr hanfodol eraill ar gyfer ein cnydau bwyd.

Caiff cymeriad unigryw y twyni tywod ei werthfawrogi gan bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd, gan eu bod yn darparu cefndir dramatig i ddiwrnod ar y traeth, a lle i chwarae, ymarfer corff neu ymlacio. Mae traethau a thwyni tywod ymhlith rhai o’r lleoliadau twristiaeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru ac yn rhoi hwb i’r economi leol.



Mae twyni tywod yn rhan hanfodol o gyfoeth naturiol Cymru, ond mae angen rheolaeth gadwraethol weithredol arnynt os ydynt am barhau i fod yn ecosystemau iach. Gan weithio gyda rheolwyr safle, mae prosiect Twyni Byw wedi darparu arian a chyfleoedd newydd i gyflawni camau adfer ac adnewyddu y mae eu hangen ar frys ar raddfa fawr.

## Hafan i fywyd gwyllt

Mae twyni tywod yn cynnal amrywiaeth eithriadol o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid prin a hynod arbenigol, y mae llawer ohonynt wedi'u dosbarthu fel rhai dan fygythiad.

Mae twyni tywod yn arbennig o bwysig ar gyfer rhywogaethau prin o blanhigion blodeuol, mwsoglau, llysiau'r afu, ffyngau ac infertebratau. Maent yn cwmpasu amrywiaeth o gynefinoedd sy'n nodedig ond yn gyd-ddibynnol, gan gynnwys tywod symudol moel, cribau twyni mawreddog, glaswelltir twyni llawn blodau a llaciau corsiog gydag eangderau o degeirianau.

Mae amrywiaeth tirwedd y twyni tywod yn creu brithwaith cywrain, cyfnewidiol o ficrogynefinoedd. Mae'r amodau heriol (halen, tywod symudol, sychder a llifogydd) yn golygu mai dim ond rhywogaethau arbenigol iawn sydd wedi addasu'n dda all oroesi. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod llawer o dwyni tywod wedi osgoi dwysâd amaethyddol, yn golygu mai twyni tywod yw un o'r ecosystemau mwyaf naturiol a bioamrywiol sydd ar ôl yng Nghymru, ac yn un o'r ychydig leoedd yn yr iseldiroedd lle gall ymwelwyr barhau i brofi'r ymdeimlad o fod mewn gwylltir gyda digonedd o fywyd gwyllt gerllaw.

### Rhywogaethau twyni nodweddiadol

Moresg Celyn y môr
Trilliw'r twyni
Caldrist y gors
Tegeirian rhuddgoch deheuol
Mwsogl edau bryum
Gwenynen durio'r gwanwyn
Chwilen deigr y twyni
Ehedydd

## Pam adfer twyni tywod?

Dros y ganrif ddiwethaf, collwyd oddeutu 30% o arwynebedd gwreiddiol ecosystemau'r twyni i ddatblygiad, amaethyddiaeth ac erydiad.

Heddiw dim ond 8,100 hectar (31 milltir sgwâr) o dwyni tywod sydd yng Nghymru – sef dim ond 0.3% o arwynebedd tir y wlad. Mae twyni tywod Cymru yn cynrychioli 11% o adnodd twyni tywod y DU.

Mae 87 o safleoedd twyni tywod sylweddol ar hyd arfordir Cymru, gyda llawer ohonynt wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Caiff y twyni mwyaf a'r rhai mwyaf arwyddocaol eu hystyried yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, gan amlygu eu pwysigrwydd rhyngwladol i fioamrywiaeth a'u rôl annatod yn rhwydwaith ardaloedd gwarchodedig Ewrop.







## Bygythiadau i dwyni

Yn naturiol, mae gan dwyni ardaloedd mawr o dywod symudol, moel. Fodd bynnag, dros yr 80 mlynedd ddiwethaf, mae glaswelltir a phrysgwydd wedi meddiannu'r twyni, gan 'sefydlogi'r' twyni a oedd unwaith yn symud, sydd wedi arwain at golli 90% o dywod agored a chynefin arloesol sy'n hanfodol i fywyd gwyllt prin yn y twyni.

O ganlyniad, mae systemau twyni deinamig gyda thywod sy'n chwythu'n naturiol fwy neu lai wedi diflannu yng Nghymru. Mae hyn wedi golygu bod poblogaethau llawer o rywogaethau prin ac arbenigol yn lleihau, a chyflwr cynefinoedd yn gwaethygu.

Mae rhywogaethau megis tegeirian y fign galchog, petal-lys, chwilen ddaear y groes, y gardwenynen feinlais a madfall y tywod bellach dan fygythiad o ddiflannu.

Mae 'cyflwr anffafriol' y twyni yn deillio o effaith gyfunol llygredd aer, rhywogaethau estron goresgynnol, newid hinsawdd, a lefelau is o bori gan dda byw a chwningod. Mae ymdrechion hanesyddol i sefydlogi'r twyni trwy ffensio a phlannu moresg hefyd wedi cyfrannu at y cyflwr hwn.

# Safleoedd prosiect Twyni Byw a'u nodweddion

## Safleoedd prosiect Twyni Byw

Mae'r prosiect wedi gweithio ar 10 safle twyni tywod, ar draws pedair Ardal Cadwraeth Arbennig, gyda chyfanswm arwynebedd o 5,300 hectar. Mae chwech o'r safleoedd hefyd yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol.

| Ardal Cadwraeth Arbennig | Safle prosiect Twyni Byw | Area (ha) |
|---|---|---|
| Twyni Abermenai i Aberffraw | Tywyn Aberffraw | 337 ha |
| | Niwbwrch | 1289 ha |
| | Morfa Dinlle | 245 ha |
| Morfa Harlech a Morfa Dyffryn | Morfa Harlech | 578 ha |
| | Morfa Dyffryn | 484 ha |
| Twyni Bae Caerfyrddin | Twyni Lacharn-Pentywyn | 796 ha |
| | Arfordir Pen-bre | 288 ha |
| | Twyni Whiteford | 122 ha |
| Cynffig | Cynffig | 716 ha |
| | Merthyr Mawr | 474 ha |

| Cynefinoedd | Rhywogaeth |
|---|---|
| Twyni symudol | Petal-lys |
| Twyni symudol gyda moresg | Tafolen y traeth |
| Glaswelltir twyni | Tegeirian y fign |
| Twyni gyda chorhelyg | |
| Llaciau twyni gwlyb | |



# Nodweddion prosiect Twyni Byw

Canolbwyntiodd y prosiect ar bum cynefin Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (yn cwmpasu 2,400 hectar) a thair rhywogaeth Atodiad II – nodweddion a ystyrir yn brin ac o dan fygythiad ledled Ewrop.



# Gwaith adfer ymarferol

**Trwy gydweithio'n agos gyda rheolwyr safle a chontractwyr, mae'r saith aelod o dîm Twyni Byw wedi cyflwyno rhaglen uchelgeisiol ac arloesol o weithredu ymarferol. Y nod yw gwneud cynnydd sylweddol i sicrhau cyflwr ffafriol i'r nodweddion ar safleoedd y prosiect. Roedd y camau ymarferol a gymerwyd yn cynnwys y canlynol:**

## Ailbroffilio'r twyni

Creu rhiciau (bylchau) yn y twyni blaen er mwyn caniatáu i'r tywod chwythu i mewn i'r tir. Codi tyweirch oddi ar dwyni sych i gynyddu symudiad y tywod ac adfywio cynefin.

Wedi llwyddo i greu naw rhicyn, a stripio tyweirch dros 14 hectar.

## Crafu llaciau twyni

Gostwng wyneb llaciau sydd wedi sychu a gordyfu (pantiau yn y twyni) er mwyn adfywio gwlyptir y twyni. Creu pyllau ar gyfer bywyd gwyllt ac i dda byw yfed ohonynt.

Cyflawnwyd y gwaith hwn dros 16 hectar, a oedd yn cynnwys creu 12 pwll.





## Cael gwared â phrysgwydd ymledol

Clirio prysgwydd brodorol, megis bedw, helyg ac eithin, a all ddominyddu'r twyni tywod, sefydlogi'r tywod a mygu glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau.

Cyflawnwyd dros 70 hectar.

## Cael gwared â rhywogaethau estron goresgynnol

Rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol iawn a all feddiannu'r twyni a mygu planhigion brodorol. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys rhafnwydden y môr, rhosyn Japan, crib-y-ceiliog a chotoneaster.

Wedi cyflawni'r gwaith dros 76 hectar.





## Torri coed conwydd

Cael gwared ag ardaloedd o goed conwydd masnachol aeddfed a blannwyd mewn lleoliadau amhriodol yn y degawdau diwethaf. Cael gwared ar eginblanhigion conwydd ac ardaloedd o bren marw a malurion ar y twyni.

Llwyddwyd i gael gwared â 22 hectar o goed conwydd.

.



## Hyrwyddo pori cynaliadwy gan dda byw

Codi ffensys newydd ac amnewid ffensys presennol fel y gall gwartheg, merlod a defaid bori er mwyn cynnal

glastir isel llawn blodau ac atal llystyfiant garw a phrysgwydd rhag gordyfu.

Wedi gosod dros 29 cilomedr o ffensys ynghyd â 105 o glwydi a chorlannau.



## Torri gwair

Torri glaswelltir twyni er budd planhigion sy’n tyfu’n isel ac annog cwningod i bori.

Wedi cyflawni 104 hectar.



## Clirio ordnans heb ffrwydro

Sganio am ordnans claddedig o ganlyniad i hyfforddiant milwrol hanesyddol a chael gwared ohono fel y gellir ymgymryd â gwaith yn ddiogel.

Wedi sganio neu arolygu 90 hectar a diarfogi pedair eitem fyw.



## Hybu cwningod

Creu cwningaroedd artiffisial i annog cwningod, sy’n rhywogaeth allweddol ar y twyni tywod. Maent yn creu tyweirch isel sy’n gyfoethog mewn rhywogaethau trwy bori a chreu microgynefinoedd trwy gloddio.

Wedi creu 27 cwningar.



# Yr hyn a gyflawnwyd yn gyfan gwbl

Mae Twyni Byw wedi wedi cyflawni cyfanswm o 440 hectar o waith ymarferol ar 9 safle. Fodd bynnag, roedd angen sawl math o ymyriad yn yr un ardal ar gyfer rhai ymdrechion adfer, megis clirio prysgwydd, torri gwair ac yna crafu. Felly, gyda'i gilydd mae'r camau hyn wedi adfer 199 hectar o dwyni tywod yn uniongyrchol, gan gynnwys creu 31 hectar o dywod moel.

Mae cyfanswm o 781 hectar o dwyni wedi'u sicrhau ar gyfer pori da byw yn y dyfodol o ganlyniad i'r 27 cilometr

o waith ffensio a gyflwynwyd gan Twyni Byw. Mae hyn yn cynnwys 251 hectar o dwyni sydd wedi'u hamgáu o'r newydd, gan ganiatáu i dda byw bori am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer.

Yn gyffredinol, mae Twyni Byw wedi cael effaith gadarnhaol ar 926 hectar o dwyni tywod.



# Arolygu a monitro

Sefydlodd y prosiect sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi ei waith a mesur canlyniadau cadwraeth. Am y tro cyntaf ers dechrau'r 1990au, cynhaliwyd arolwg Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol ar draws naw o safleoedd prosiect, gan gwmpasu bron i 4,000 hectar. Cynhyrchodd hyn fapiau manwl wedi'u diweddaru o gynefinoedd Atodiad I a chymunedau twyni eraill.

Arolygwyd rhywogaethau prin a gwarchodedig ar chwe safle cyn i waith ddechrau er mwyn atal niweidio poblogaethau a llywio gofynion trwyddedu neu liniaru. Roedd yr arolygon yn cynnwys y canlynol:

- **Petal-lys**
- **Madfallod y tywod**
- **Madfallod dŵr cribog**

Er mwyn asesu canlyniadau adfer, rhoddwyd rhaglen fonitro ar waith ar draws saith safle a oedd y cwmpasu'r canlynol:

- **Botaneg**
- **Infertebratau**
- **Priddoedd**
- **Hydroleg**
- **Geomorffoleg (LiDAR/drôn)**

Roedd canlyniadau'r arolwg yn amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd yn seiliedig ar ffactorau megis lleoliad, gwahaniaeth o ran tywydd o dymor i dymor, maint a dyfnder y cloddiadau, pellter o'r draethlin, a'r amser ers y cwblhawyd y gwaith.

Fodd bynnag, dangosodd yr astudiaethau fod ymyriadau'r prosiect wedi llwyddo i greu 31 hectar o dywod moel, a oedd â chynnwys organig isel, cynnwys maetholion isel a pH uwch, fel y bwriadwyd. Gostyngwyd lefelau arwyneb mewn llaciau wedi'u crafu fel y cynlluniwyd, gan godi lefelau dŵr, er nad oeddent i gyd yn cyrraedd y targedau a ragwelwyd. Yn Nhywyn, Aberffraw a Merthyr Mawr, cynyddodd y rhiciau symudiad y tywod yn sylweddol 50 metr i mewn i'r tir, er na welwyd yr un canlyniad yng Nghynffig, ble mae cyflenwad tywod yn fwy cyfyngedig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yn rhy gynnar i'r cymunedau o blanhigion olynol cynnar y dymunwyd amdanynt i fod wedi datblygu. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, canfuwyd saith rhywogaeth ddangosol ym mhob un o'r lleiniau llaciau a arolygwyd, gyda'r mwyaf llwyddiannus yn cefnogi 12 rhywogaeth.

Dangosodd arolygon infertebratau hefyd gynnydd mewn rhywogaethau, gydag wyth arbenigwr llaciau twyni newydd wedi'u cofnodi ar ôl yr ymyriad, o'u cymharu â dim ond dau cyn hynny.





# Astudiaethau achos o adfer ar raddfa tirwedd



## Morfa Harlech

Yn y 1970au, plannwyd pinwydd Corsica masnachol dros oddeutu 20 hectar o dwyni Morfa Harlech fel rhan o Goedwig Harlech. Roedd y coed a oedd yn tyfu yn cael effaith andwyol ar gynefin y twyni, yn gostwng lefelau dŵr ac yn cynnal rhywogaethau estron goresgynnol.

Adferodd Twyni Byw ac CNC yr ardal trwy dorri'r blanhigfa or-aeddfed a gwerthu'r coed i'r farchnad. Cafwyd gwared o fonion a malurion a rheolwyd plâu o fanadl a choed bysedd y blaidd.

Cafodd tri hectar o dwyni sych hefyd eu crafu'n ôl i dywod moel yn barod i gael eu cytrefu gan rywogaethau twyni prin megis gwenynen durio'r gwanwyn, ac adnewyddwyd dau hectar o laciau er mwyn creu cynefin o wlyptir a dŵr agored.

Ochr yn ochr â'r gwaith, llwyddwyd i wneud nodwedd archaeolegol bwysig o'r Ail Ryfel Byd, sef rheilffordd maes tanio Morfa, yn hygyrch, a chafodd ei chofnodi yn fanwl am y tro cyntaf. Yn olaf, ffensiwyd yr ardal gyfan fel y gall merlod bori er mwyn cynnal y cynefinoedd adferedig yn y dirwedd hon, sydd bellach wedi'i thrawsnewid.



## Merthyr Mawr

Bu Twyni Byw yn cydweithio ag Ystad Merthyr Mawr i barhau â'r gwaith o adfer symudedd y blaen-dwyni, a ddechreuwyd gyntaf yn 2012. Cloddiwyd rhicyn siâp v i gefnen serth y blaen-dwyn, a chafodd 'breichiau' cyfochrog eu twmpathu er mwyn sianelu gwynt a thywod i mewn i'r twyni. Mae'r rhicyn hefyd yn caniatáu gwell mynediad i'r cyhoedd, i'r traeth ac oddi yno. Y tu ôl i'r rhicyn roedd gweithfeydd graean segur ble'r oedd y twyni wedi'u haddasu'n sylweddol. Yma, ailbroffiliwyd y tywod i ail-greu'r ffurfiant llaciau gwreiddiol.

Gwnaed mwy o grafiadau bach mewndirol i annog bryoffytau prin a thynnwyd tywyrch oddi ar gribau a oedd wedi tyfu'n wyllt i'w hadnewyddu er mwyn hwyluso 'glaw tywod' lleol. Cafodd cyfanswm o 4.6 hectar o dwyni eu hailbroffilio a'u hadnewyddu.

# Rhoi sbotolau ar dwyni tywod

## Ymgysylltu

Ymgysylltodd Twyni Byw â bron i 1,500 o aelodau'r gymuned leol ac ymwelwyr mewn cyfanswm o 91 o ddigwyddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys teithiau cerdded bywyd gwyllt gyda thywysydd a theithiau maes addysgol i fyfyrwyr ac athrawon, yn ogystal â chyfarfodydd â thrigolion lleol a thirfeddianwyr. Mynychodd Twyni Byw sioeau a gwyliau, yn ogystal â chynnal digwyddiadau, a oedd yn amrywio o godi sbwriel i ioga ar y traeth.

Roedd rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ar reoli twyni tywod gydag ymarferwyr eraill yn amcan hollbwysig i'r prosiect. Cynhaliodd Twyni Byw weithdy rhyngwladol, cyfres o weminarau ar-lein a chyfarfodydd gyda rhanddeiliaid ynghyd â chynhadledd derfynol a fynychwyd gan dros 100 o gynrychiolwyr. Drwy gyfrannu hefyd at 60 o ddigwyddiadau rhwydweithio eraill yng Nghymru, y DU a gogledd Ewrop, ymgysylltodd y prosiect â dros 1,000 o gydweithwyr proffesiynol i gyd.

## Cyhoeddiadau

Mae Twyni Byw wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd a chynulleidfaoedd technegol.

- 33 o adroddiadau monitro
- 13 o adroddiadau ar gamau adfer ymarferol
- Casgliad o ddeunyddiau addysgiadol ar gyfer ysgolion
- Llyfryn Twyni Tywod yng Nghymru
- Taflenni ar safleoedd twyni tywod

## Nodau llesiant

Mae'r prosiect wedi cyfrannu at nodau llesiant Cymru drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi arferion ffermio traddodiadol
- Creu cyfleoedd economaidd i fusnesau Cymru
- Hyfforddi a datblygu cenhedlaeth newydd o reolwyr amgylcheddol
- Galluogi mwy o bobl i ddefnyddio a mwynhau'r twyni tywod, sydd yn ei dro yn hybu iechyd a llesiant a thwf economaidd o ganlyniad i dwristiaeth yng Nghymru.



# Dyfodol adfer twyni tywod yng Nghymru

Mae prosiect Twyni Byw wedi cyflawni ystod wych o fesurau adfer twyni tywod ar draws pedair Ardal Cadwraeth Arbennig yng Nghymru, gan nesáu at gyflwr llawer iachach ar gyfer y safleoedd hyn a sicrhau bod holl fanteision twyni tywod i wasanaethau ecosystemau yn cael eu gwireddu.

Fodd bynnag, nid yw'r gwaith yn dod i ben yma – bydd angen gwaith adfer a chynnal a chadw parhaus ar yr holl safleoedd hyn er mwyn sicrhau nad yw ffactorau negyddol yn dechrau effeithio ar y cynefin eto.

Bydd angen monitro er mwyn deall effaith hirdymor y camau adferol, a pharhau'r sgwrs gyda chymunedau lleol, tirfeddianwyr a grwpiau rhanddeiliaid er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr ecosystemau gwerthfawr hyn.

Rydym wedi creu Strategaeth Twyni Tywod i Gymru sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer twyni tywod am y pum mlynedd nesaf, a chynllun Ar ôl LIFE, sy'n cynnwys manylion am y camau gweithredu sydd eu hangen ar bob safle.

Ewch i'r dudalen we i ddarganfod mwy **Cyfoeth Naturiol Cymru / Twyni Byw**



# Llwyddiannau prosiect Twyni Byw

## Adfer

- 926 ha o gynefinoedd twyni tywod Atodiad I wedi'u hadfer i gyflwr gwell
- 9 rhicyn blaen-dwyn (targed 10)
- 14 ha o ailbroffilio/crafu tywod sych (targed 12 ha)
- 16 ha o waith crafu llaciau (targed 13 ha)
- 104 ha o dorri gwair (targed 93 ha)
- 73 ha o reoli prysgwydd (targed 44 ha)
- 9 ha o reoli rhywogaethau brodorol (targed 19 ha)
- 76 ha o reoli rhywogaethau estron goresgynnol (targed 58 ha)
- 22 ha o gael gwared â chonwydd (targed 9 ha)
- 35 ha o gael gwared â choed marw a malurion (targed 15 ha)
- 29 km o ffensio (targed 24 km)
- 90 ha o dir wedi'i sganio am ordnans heb ffrwydro, gyda 4 eitem fyw wedi'u diarfogi'n ddiogel (targed 28 ha)



- Gosod 105 o glwydi i gerddwyr a chlwydi fferm a chorlannau da byw (targed 43)
- Creu 27 o gwningaroedd artiffisial (targed 28)



## Tystiolaeth a dysgu

- Arolygwyd 238 o leiniau ar draws saith safle prosiect
- Cafodd 11 o ffynonellau data eu monitro rhwng 2019 a 2023
- Gosodwyd 10 ffynnon drochi i fonitro lefelau dŵr
- Nodwyd bron i 600 o wahanol rywogaethau o infertebratau
- Arolygon cwningod wedi'u cwblhau
- Cynhaliwyd astudiaeth economaidd-gymdeithasol a oedd yn cynnwys pedwar holiadur
- Cyhoeddwyd cyfres o 33 o adroddiadau monitro

# Cyfathrebu ac ymgysylltu

- Llyfryn Twyni Tywod yng Nghymru
- Wyth taflen safle
- Pecyn o adnoddau addysgol (10 taflen gweithgareddau a gwybodaeth)
- Pedair taflen a llyfryn arall
- 12 rhifyn o gylchlythyr y prosiect
- 11 panel dehongli parhaol
- 44 o erthyglau mewn papurau newydd a chylchgronau
- 11 darllediad teledu a radio
- 42 postiad blog wedi'u rhannu ar-lein
- 225 o negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar 4 platfform, gan gynnwys 42 o fideos byr
- Gweithdy rhyngwladol (40 o gynrychiolwyr)
- Cyfres o wyth gweminar a chyfarfodydd ymarferwyr
- Cynhadledd derfynol (110 o gynrychiolwyr)
- 22 o ddigwyddiadau cymunedol
- 26 o gyfarfodydd â thirfeddianwyr
- 13 o ymweliadau i rannu arferion gorau
- 47 o gyfarfodydd rhwydweithio eraill
- Cynlluniau Ar ôl LIFE ar gyfer pob safle
- Map Trywydd Twyni Tywod (strategaeth)







Morfa Harlech